**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**11-02-2022**

**Presenoldeb:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd) – Cadeirydd
Cyng. Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd)
Bedwyr Gwilym (Swyddfa AC Dwyfor a Meirionnydd)
Clare Britton (Rheilffordd Ffestiniog)
Cyng. Trevor Roberts (Rheilffordd Aberystwyth/Amwythig)
Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd)
Stuart Williams (Rheilffordd Tal-y-llyn)

Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) **LHE**

Sam Hadley (Network Rail) **SH**
Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru) **GJ**

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Cyng. Eirwyn Williams, (Cyngor Gwynedd), Cyng. Angela Russell (Cyngor Gwynedd), Cyng. Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd - Cyngor Gwynedd), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd), Cyng. Annwen Hughes, (Cynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Cyng. Michael Williams (Cyngor Powys), Ann Elias (Cyngor Sir Ceredigion) a Joyce Watson (AC Rhanbarth Gorllewin a Chanolbarth Cymru)

Amlygodd y Cadeirydd bod y Cynghorodd Selwyn Griffiths yn ymddeol fel Cynghorydd Sir ym mis Mai 2022. Diolchodd i'r Cynghorydd am ei waith a'i gefnogaeth i'r Cambrian dros y blynyddoedd. Mewn ymateb, nododd y Cynghorydd Griffiths ei fod wedi mwynhau bod yn rhan o'r grŵp a'i fod yn pwysleisio'r angen i'r grŵp barhau i sicrhau bod y Cambrian yn allweddol i economi Gwynedd. Diolchodd i'r swyddogion am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gydweithio ac ymateb i bryderon. Ar ran Network Rail, mynegodd Sam Hadley ei ddiolch i'r Cynghorydd am ei waith a hefyd am y croeso cynnes wrth ymweld â Porthmadog.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 1af o Hydref 2021 fel rhai cywir

Materion yn codi o'r cofnodion:

- Sicrhau bod posteri yng ngorsaf Llandanwg yn amlygu gwasanaeth tacsi. **GJ i wirio hyn ynghyd a sicrau bod gwybodaeth gyfredol yn atgoffa defnyddwyr o'r gwasanaethau bws fydd ar gael o ganlyniad i Draphont Abermaw yn cau**
- Strategaeth Llwybrau Diogel at Wasanaethau - sut mae rhoi mewnbwn i'r strategaeth? **GJ i rannu manylion gyda'r Cynghorydd Gwynfor Owen**
- Gosod rhwystrau damweiniau a thrwsio wal derfyn ar yr A493 rhwng Llwyngwril a Friog. Cyfarfod nesaf gyda'r Cyngor Cymuned wedi ei drefnu ar gyfer 9/3/22. Pryder gan yr Aelod Lleol (Cyng. Louise Hughes Llangelynnin) bod cyflwr y wal yn gwaethygu ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn llithro. SH yn amlygu bod rheolwr prosiect a chyllideb wedi ei gosod ar gyfer y gwaith sydd yn parhau yn faes blaenoriaeth.
- Gorsaf Llanbedr - adroddwyd bod cyfarfod i drafod gwelliannau / addasiadau posib i'r orsaf wedi ei gynnal gyda'r Cyngor Cymuned ym mis Hydref, bod David Crunkhorn (Gorsaf Feistr) wedi ymweld â'r orsaf a bod ail gyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Cyngor Cymuned. **Cais am ddiweddariad pan fydd mwy o wybodaeth ar gael GJ**
- Cais am gyllid i gynnal astudiaeth fer ar wasanaeth trên posib rhwng Bangor ac Afonwen wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd bod angen mwy o dystiolaeth am y buddion posib. BG yn adrodd bod gwaith yn cael ei wneud i ailgyflwyno cais i'r dyfodol.

## 5. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU

### NETWORK RAIL

Croesawyd Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru i'r cyfarfod

**Diweddariad ar uwchraddio traphont Abermaw**

Cyflwynwyd lluniau a ffeithiau allweddol ar waith a gwblhawyd ar y draphont rhwng Medi 2021 a Rhagfyr 2021. Nodwyd bod y gwaith wedi bod yn heriol ac yn ffisegol anodd i'r gweithwyr oherwydd amodau gwaith yn ymwneud a'r tywydd.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd rhywfaint o'r bont wreiddiol yn weddill, nodwyd bod pob ymgais yn cael ei wneud i gadw cymaint â phosib o'r nodweddion gwreiddiol a bod unrhyw ailosodiad yn un 'tebyg at ei debyg'. Ategwyd bod y bont wedi ei chofrestru (Gradd 2) a bod pob ymgais yn cael ei wneud i sicrhau bod y nodweddion yn cael eu diogelu.

**ETCS (European Train Control System)**

Adroddwyd bod y System ETCS sydd yn cael ei ddefnyddio i reoli signalau a chyflymder trenau yn cael ei uwchraddio ar gyfer fflyd Dosbarth CAF 197 Civity fydd yn cael eu defnyddio ar y Cambrian i'r dyfodol agos.

Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai'r llinell Cambrian yn cau dros gyfnod uwchraddio'r system ETCS, nodwyd y byddai'r gwaith yn debygol o gael ei wneud dros y penwythnos ac / neu yn ystod cyfnod cau arall sydd wedi ei gynllunio i osgoi aflonyddwch.

**Prosiect Glandulas (Black Bridge) ger Machynlleth**

Bod codi'r bont sy'n rhedeg dros yr Afon Dulas wedi profi yn llwyddiannus iawn. Codwyd y bont un metr yn uwch er mwyn lleihau effaith llifogydd ( lefel yr afon yn codi yn ystod glaw trwm a llinell y Cambrian yn gorfod cau). O ystyried bod y buddsoddiad yn un eithaf bychan, yr effaith yn sylweddol - yn ystod y tywydd garw diweddar, nodwyd nad oedd llifogydd arferol wedi atal gwasanaethau'r Cambrian

**Rhaglen Mynediad i Bawb (Access for All)**

Amlygwyd bod y rhaglen yn gwella mynediad i orsafoedd a bod gorsafoedd ar draws y wlad yn cael eu hysytired ar gyfer gwelliannau. Am y tro cyntaf eleni, amlygwyd bod dwy o orsafoedd y Cambrian wedi eu cynnwys ar y rhestr waith posib - hyn yn rhywbeth nas gwelwyd o'r blaen ac yn newyddion gobeithiol.

**TRAFNIDIAETH CYMRU**

Croesawyd Gail Jones, Trafnidiaeth Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno diweddariad ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru.

Cyflwynwyd gwybodaeth am y trenau newydd Dosbarth CAF 197 Civity

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gweld model o'r cerbydau newydd nodwyd bod gwahoddiad i ymweld â'r trenau newydd wedi ei drefnu Ebrill 2022 a thaith brawf yn cael ei threfnu i Gyffordd Llandudno. Mewn ymateb, amlygwyd bod dyddiadau ymweld mis Ebrill yng nghanol cyfnod cyn etholiad ac felly'n debygol o fod angen eu hail drefnu.

Cyfeiriwyd at SGWRS sef cymuned ymchwil ar-lein Trafnidiaeth Cymru i rannu barn ar drafnidiaeth yng Nghymru gyda chyfle i gymryd rhan mewn arolygon, trafodaethau ar-lein, a fforymau trafod i wella'r gwasanaeth.
SGWRS (tfw.wales)

Amlygwyd pryder bod y cerbydau newydd gyda llai o seddau ac un toiled fesul 2 gerbyd. Ategwyd bod y Cambrian yn un o linellau mwyaf prysur Cymru a'r defnydd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Ystyriwyd nad oedd cynnig llai o seddau yn ymateb i'r galw ac felly cynigiwyd yn ffurfiol bod angen ystyried 4 cerbyd parhaol ar gyfer y daith.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â diffyg toiledau ar y trenau newydd a lleihad mewn nifer seddau, nodwyd bod rhaid sicrhau bod pob elfen yn cael ei ystyried megis lle digonol ar gyfer pramiau, cadair olwyn, bagiau, beics a nifer toiledau.

Materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth

- Biniau gorsaf Llandecwyn - a oes bwriad eu hail osod? Mater Cyngor ynteu fater TFC? **GJ i edrych i hyn**
- Sbwriel ar y rheilffordd yn amlygu blerwch – angen cydweithio i wella'r ddelwedd
- Angen gwell cydweithio rhwng amserlenni bysus a threnau i hybu trafnidiaeth gyhoeddus
- Angen ystyried ail gyflwyno trenau nwyddau - mewn ymateb nodwyd bod Cynghrair Trafnidiaeth Canolbarth Cymru wedi trafod y posibiliadau a bod Uwch Reolwr Cludo Nwyddau NR wedi sôn am gynllun peilot i edrych ar y posibilrwydd - Y Cambrian yn addas i'r pwrpas yma. Awgrym gwahodd Jess Lippitt (Uwch Reolwr Llwybrau Cludo Nwyddau - Network Rail) i gyfarfod i'r dyfodol i drafod materion cyffredinol cludo nwyddau.

**HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig yn bresennol i gyflwyno adroddiad. Amlygwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Inspector Karl Anderson. Nododd SH mai tîm bychan iawn sydd bellach yn gweithio i'r Tîm Heddlu Trafnidiaeth Rheilffordd. **SH i gyfeirio cyswllt newydd i LHE**

**Diolchwyd am y diweddariadau**

**6. DYFODOL CYNHADLEDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Cynigiwyd gohirio'r drafodaeth ar y mater tan ar ôl cyfnod yr etholiad. Ategwyd bod cynnal y drafodaeth yn hanfodol ac mai dyhead yr aelodau oedd parhau fel grŵp ar wahân. Angen sicrhau bod swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn.

**7. YMATEB I GWESTIYNAU FFURFIOL**

Derbyniwyd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol gan Gyngor Tref Criccieth

*‘Mae Cyngor Tref Criccieth yn pryderu nad yw Network Rail yn cyfathrebu yn ddigonol gyda’r cyhoedd i nodi pryd oedd y trenau wedi ail-ddechrau’n ddiweddar – a bod angen gwella hyn ar gyfer y dyfodol gan ei fod yn fater iechyd a diogelwch. A oes modd sicrhau gwell cyfathrebu am newidiadau i’r gwasanaeth i’r dyfodol? Mae Cyngor Tref Criccieth hefyd a chonsyrn am daclusrwydd/edrychiad y tir o gwmpas y stesion ar y dde. A oes modd gwneud rhywbeth amdano’*

Derbyniodd SH y feirniadaeth ac amlygodd bod pob ymgais wedi ei wneud i sicrhau cyn lleied â phosib o aflonyddwch a chymhlethdod yn ystod y cyfnod heriol o gau ac ail agor y rheilffordd. Ategodd, yn y dyfodol, bydd mwy o ystyriaethau i faterion diogelwch croesfannau ac y bydd gwelliant yn y dulliau cyfathrebu wrth weithio tuag at Cyfnod 3.

Yng nghyd-destun taclusrwydd yr orsaf nodwyd mai TFC sydd yn gyfrifol am daclusrwydd yr orsaf a bod Network Rail, fel perchennog y tir, yn gyfrifol am y rheilffordd a thir bob ochr i’r rheilffordd ac yn llesu'r orsaf i TFC i reoli materion dydd i ddydd. Nododd y byddai yn codi cais gwasanaeth ar ran Cyngor Tref Criccieth ac y byddai asesiad yn cael ei wneud o’r gwaith angenrheidiol. Ategodd GJ y byddai yn cysylltu gyda Rheolwr yr Orsaf.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:00

**CADEIRYDD**